

# Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

Briff Penodi

Gorffennaf 2024

WELSH REFUGEE COUNCIL
CYNGOR FFOADURIAID CYMRU

# Croeso

**Annwyl Ymgeisydd,**

Byddwch yn ymuno â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar adeg gyffrous yn ein taith, gan ein helpu ni a'r sector i gefnogi'r rhai sy'n cael eu gorfodi i geisio diogelwch. Gyda mwy na 34 mlynedd o brofiad, mae'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu'n ymddiried ynom ac yn ein gweld ni fel y sefydliad arweiniol yng Nghymru ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Byddwch yn gweithio gyda bwrdd ymroddedig ac uchel ei berfformiad sy'n ymdrechu i wneud gwahaniaeth bob dydd, ac yn herio arferion gelyniaethus sy'n cyfyngu ar botensial pobl.

Rydym yn elusen arobryn sydd yn ddiweddar wedi derbyn gwobr gan ein cymheiriaid yn y sector am Brif Swyddog Gweithredol Benywaidd Elusen 2022, Sefydliad y flwyddyn 2023 a **Gwobrau Ffilm Elusen Smiley 2023**.

Darllenwch am ein gwaith diweddaraf ar **ein gwefan** a chyfryngau cymdeithasol (**Facebook**, **X**). Dyma ein **Adroddiad Effaith** diweddaraf (2023).



**Rydym yn mwynhau'r her o barhau i wella ac rydym wedi ymrwymo i'r nodau ansawdd canlynol:**

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Cofion

**Hawar Ameen**
**Cadeirydd Dros Dro yr Ymddiriedolwyr**





# Amdanom ni

## Gweledigaeth

Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru lle mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael eu croesawu, eu parchu a'u hymgrymuso.

## Cenhadaeth

Rydym yn gwella bywydau ceiswyr lloches a ffoaduriaid trwy gefnogaeth arbenigol a thrwy ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer.

## Ein Gwerthoedd

**Dewr**

Rydym yn feiddgar, yn arloesol, ac yn weithredol.

**Amrywiol**

Rydym yn cydnabod y cryfderau sydd gan bob un ohonom, a'r elfennau unigryw sydd gennym.

**Croeso/Welcome**

Rydym yn creu amgylcheddau sy'n groesawgar ac sy'n ennyn diddordeb.

**Dylanwadol**

Rydym yn grymuso pobl i adrodd eu straeon ac yn defnyddio ein data i godi naratifau.

**Cydweithredol**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ac adeiladu gallu ein gilydd.

## Strategaeth

Rydym yn grymuso ceiswyr lloches a ffoaduriaid i adeiladu dyfodol newydd yng Nghymru ac mae gennym dros 34 mlynedd o brofiad. Rydym yn gwrando ar anghenion pobl, ac yn cyd-gynhyrchu prosiectau sy'n creu gwell llwybrau cymorth.

Rydym wedi'n lleoli yng nghanol ein cymunedau ac yn darparu cefnogaeth arbenigol ledled Cymru o'n hybiau cymunedol yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Wrecsam.

Rydym yn partneru ag ystod eang o gyrff sector cymunedol, gwirfoddol a statudol er mwyn cynyddu ein heffaith a sicrhau y gall ein cleientiaid ffynnu.

Rydym yn cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid trwy adegau mwyaf argyfyngus eu bywydau. Mae ein gwaith yn galluogi pobl sydd wedi cael eu gorfodi i chwilio am noddfa i gael eu traed oddi tanynt a dechrau adeiladu bywyd yng Nghymru.

Rydym yn helpu pobl i ddod o hyd i le i aros, gweithio i gefnogi eu hunain, cyrchu dosbarthiadau Saesneg, cael cyngor cyfreithiol, a chanfod rhwydweithiau cymunedol. Rydym yn darparu lleoedd diogel i bobl ifanc chwarae gyda'n Prosiect Chwarae. Nod ein gwaith yw helpu pobl i deimlo'n llai ynysig, yn fwy gwybodus, yn uwch eu sgiliau, wedi integreiddio ac yn fwy abl i siarad am y materion sy'n effeithio arnynt.

Darllenwch ein **Strategaeth (2023-2026)**.



> "Cyngor Ffoaduriaid Cymru yw dechrau diwedd y trawma. Dyma le mae'r ffoi yn dod i ben ac mae'r adferiad yn dechrau."

## Cyllid

Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru drosiant gweithredol o tua £1.9 miliwn. Mae hyn yn cynnwys 2 gontract Llywodraeth Cymru, ac incwm ymddiriedolaethau a sefydliadau. Mae cytundebau corfforaethol wedi talu am ran fwyaf ein gwaith addysg a chyflogaeth, gyda rhoddwyr a chefnogwyr yn darparu incwm heb gyfyngiadau gwerthfawr.



# Datganiad CAC

## (Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant)

Credwn y dylai pawb allu cyflawni eu llawn botensial, beth bynnag fo'u hoedran, eu nodweddion gwarchodedig, eu hethnigrwydd neu eu statws economaidd-gymdeithasol. Mae ein Dull Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn edrych ar achosion sylfaenol anghydraddoldeb ac yn amlinellu ffyrdd ymarferol yr ydym yn mynd i'r afael â nhw.

Rydym wedi nodi systemau a strwythurau a all rwystro pobl ac rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn drwy:

- Ehangu llwybrau i gyflogaeth
- Adnabod anghenion hyfforddiant ein staff a'n gwirfoddolwyr
- Hwyluso Cynhwysiant Ariannol
- Amrywio meddwl a mynediad at rym


Darllenwch ein **Dull Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** llawn.

Rydym yn falch bod chwarter ein staff wedi ein cyrraedd ni trwy ein Llwybr Gwirfoddoli, ac mae gan dros 50% o'n staff dreftadaeth fudol. Mae gweithio mewn amgylchedd o amrywiaeth a chynhwysiant yn gwneud i ni deimlo'n fwy cysylltiedig ac yn gwneud ein bywydau'n fwy cyfoethog.

Rydym yn sefydliad sy'n croesawu newid, ac rydym bob amser yn ceisio gwella ein ffordd o weithio i fod yn fwy cynhwysol a chyfartal.



# Siart Sefydliadol




Mae'r tîm sydd dan reolaeth ein Prif Swyddog Gweithredol Andrea Cleaver yn cynnwys 35 o staff cyfwerth ag amser llawn ar draws 5 lleoliad: Caerdydd, Casnewydd, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Wrecsam. Gyda'r polisi Ehangu Gwasgariad, rydym yn ceisio cynyddu ein cyrhaeddiad yn ystod y 18 mis nesaf.

Yn eich gwaith fel Cadeirydd byddwch yn arwain ein Bwrdd Ymddiriedolwyr, gan sicrhau bod y Cyngor yn cael ei lywodraethu a'i reoli'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys darparu arweinyddiaeth strategol, cefnogi'r Prif Weithredwr, a chynrychioli Cyngor Ffoaduriaid Cymru mewn digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus.

Mae'r swydd hon yn cynnwys cadeirio cyfarfodydd y bwrdd, goruchwylio'r Is-bwyllgorau Adnoddau a Strategaeth, arwain y broses recriwtio ar gyfer y Bwrdd, ac arwain mentrau datblygu'r bwrdd. Mae'r Cadeirydd yn allweddol ar gyfer sicrhau parhad, sefydlogrwydd a chyfeiriad strategol yn ein sefydliad.

Byddwch yn weithredwr o newidiadau sy'n ein helpu i gefnogi a grymuso'r rhai sy'n cael eu gorfodi i geisio diogelwch.

Byddwch yn rheolwr llinell i'r Prif Swyddog Gweithredol ac yn darparu arfarniadau ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Cewch eich cefnogi gan ein is-gadeirydd a'n Trysorydd (sydd hefyd yn Gadeirydd ein is-bwyllgor Adnoddau), a Chadeirydd yr is-bwyllgor Strategaeth.

# Disgrifiad Swydd

**Teitl Swydd:**

## Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

**Math o rôl:**

Gwirfoddol, isafswm ymrwymiad o flwyddyn i rôl y Cadeirydd - yn draddodiadol, mae'r bwrdd ymddiriedolwyr yn pleidleisio dros Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr yn flynyddol. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio denu ymgeisydd sy'n ymroddedig i'r elusen yn y tymor hir.

**Tâl cydnabyddiaeth:**

Di-dâl, ond telir treuliau rhesymol e.e. costau teithio i safleoedd, cynadleddau neu weithgareddau datblygiadol.

**Lleoliad:**

Rôl o fewn Cymru yn bennaf. Mae ein prif swyddfa yng Nghaerdydd, a bydd gofyn i chi ymweld yn achlysurol drwy gydol y flwyddyn. Efallai y bydd gofyn i chi hefyd ymweld â lleoliadau eraill ledled y Deyrnas Gyfunol (ond yng Nghymru yn bennaf) fel eiriolwr dros Gyngor Ffoaduriaid Cymru. Nid oes rhaid i ddeiliad y rôl fyw yng Nghymru.



## Cyfrifoldebau Allweddol

### Cadeirio Cyfarfodydd y Bwrdd

- Cyfarfod â'r Prif Swyddog Gweithredol cyn cyfarfod y Bwrdd i gytuno ar argymhellion i'w cyflwyno i'r Ymddiriedolwyr.
- Llywio cyfarfodydd y Bwrdd, gan sicrhau llywodraethu effeithiol, bod penderfyniadau'n cael eu gwneud a'u bod yn glynu wrth safonau cyfreithiol a moesegol.
- Hwyluso trafodaethau, annog safbwyntiau amrywiol, a meithrin amgylchedd cydweithredol ymhlith aelodau'r bwrdd.

### Goruchwylio is-bwyllgorau

- Cynnig arweinyddiaeth i'r Is-bwyllgorau Adnoddau a Strategaeth, trwy gyfathrebu'n rheolaidd â chadeiryddion yr is-bwyllgorau a llywio eu gweithgareddau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau ehangach y bwrdd.

### Recriwtio ar gyfer y Bwrdd

- Cefnogi'r broses recriwtio lle bo'r angen, gan weithio'n agos â'r Pwyllgor Enwebiadau, y Prif Swyddog Gweithredol a rhanddeiliaid i ganfod ymgeiswyr addas.
- Asesu ymgeiswyr, hwyluso cyfweliadau ac argymhellion i'r Bwrdd.

### Datblygiad y Bwrdd

- Datblygu a gweithredu strategaethau i wella effeithiolrwydd y Bwrdd, gan gynnwys hyfforddi, cynllunio olyniaeth, ac arfarnu perfformiad ymddiriedolwyr.
- Sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn derbyn hyfforddiant cynefino, cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant parhaus priodol, yn unigol ac ar y cyd, i'w paratoi ar gyfer eu rolau yn effeithiol.
- Sicrhau bod y Bwrdd yn dirprwyo digon o awdurdod i'w is-bwyllgorau er mwyn galluogi busnes yr elusen gael ei gynnal yn effeithiol rhwng cyfarfodydd.

### Cynllunio strategol

- Cydweithio ag aelodau'r Bwrdd, uwch-arweinwyr a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a mireinio blaenoriaethau strategol a gweledigaeth hirdymor y sefydliad.
- Monitro cynnydd tuag at nodau strategol, nodi cyfleoedd a heriau, ac argymell addasiadau yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu gwneud er budd gorau hirdymor yr elusen a bod y Bwrdd yn cymryd cydberchnogaeth o'r penderfyniadau hyn.
- Nodi, asesu a blaenoriaethu risgiau'n rhagweithiol, gan weithio ar y cyd â'r Bwrdd a'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth i ddatblygu a gweithredu strategaethau lliniaru effeithiol.
- Sicrhau bod y Bwrdd yn canolbwyntio ar ei rôl lywodraethu ac nad yw yn raddol neu'n tarfu ar faterion gweithredol mewn unrhyw fodd.

### Adnoddau

- Goruchwylio dyrannu a defnyddio adnoddau, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion a chenhadaeth strategol Cyngor Ffoaduriaid Cymru (CFfC), gan hefyd hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd mewn rheolaeth ariannol.
- Cydweithio â'r Bwrdd a'r Uwch-Dîm Rheoli i ddatblygu a gweithredu strategaethau rheoli adnoddau effeithlon, gan gynnwys cyllidebu, codi arian a rheoli gwariant, er mwyn sicrhau bod rhaglenni a gwasanaethau'r elusen yn cael yr effaith fwyaf posib.
- Goruchwylio trafodion ariannol a sicrhau eu bod yn cael eu cyfrif yn systematig, eu harchwilio ac ar gael i'r cyhoedd.

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid

- Gweithredu fel llefarydd ac eiriolwr dros Gyngor Ffoaduriaid Cymru, gan gynrychioli'r sefydliad i randdeiliaid allanol, gan gynnwys asiantaethau'r llywodraeth, cyllidwyr a'r cyhoedd.
- Meithrin partneriaethau strategol a chynghreiriau er mwyn hyrwyddo cenhadaeth ac amcanion y sefydliad.
- Sicrhau bod lleisiau'r rhai sydd â phrofiad byw wrth wraidd ein gwaith, a'n bod yn cael ein clywed a'n gweld gan y Bwrdd.

### Cymorth arweinyddiaeth

- Cefnogi, a lle bo hynny'n briodol, gweithredu fel ffrind beirniadol i'r Prif Weithredwr.
- Sicrhau bod y Bwrdd cyfan yn gweithio mewn partneriaeth ag uwch staff.
- Sicrhau bod ymddiriedolwyr yn ymweld â gwahanol rannau o'r elusen, yn mynychu rhai o'r digwyddiadau a drefnir gan yr elusen ac yn cael cyfleoedd anffurfiol i gwrdd â staff a buddiolwyr pan fo hyn yn ymarferol.
- Adfarnu gwaith y Prif Swyddog Gweithredol.

# Manyleb y Person

## Profiad Hanfodol

- Addysg lefel gradd neu gymhwyster cyfatebol, a thystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol lefel uwch parhaus.

**Arweinyddiaeth**

- O leiaf pum mlynedd o brofiad ar lefel arweinyddiaeth uwch, mewn sefydliad cymhleth.
- O leiaf 3 blynedd o brofiad yn gwasanaethu ar fyrddau dielw, gyda dealltwriaeth ddofn o egwyddorion llywodraethu ac arferion gorau.
- Meddylfryd strategol cryf, gyda'r gallu i ddadansoddi materion cymhleth, gwneud penderfyniadau cadarn, a gyrru newid sefydliadol.
- Hanes o ddatblygu a chyflawni strategaeth lwyddiannus, o fewn sefydliad a arweinir gan bwrpas a chael effaith gadarnhaol.
- Profiad o fod yn rheolwr llinell i staff uwch a chefnogi cynlluniau gwaith.
- Buasai'n fanteisiol bod â phrofiad blaenorol o gadeirio cyfarfodydd, rheoli pwyllgorau, a goruchwylio prosesau recriwtio.

## Gwybodaeth Hanfodol

**Polisi**

- Gwybodaeth am bolisi ffoaduriaid a lloches yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol.

## Sgiliau Hanfodol

**Cyfathrebu**

- Gallu profedig i ddylanwadu ar newid cadarnhaol ar lefel uchel.
- Sgiliau arweinyddiaeth cryf, gyda'r gallu i ysbrydoli ac ysgogi aelodau'r bwrdd a rhanddeiliaid i weithio tuag at weledigaeth gyffredin.
- Saesneg rhugl gyda sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig rhagorol; yn gallu ymgymryd ag ymchwil ac ysgrifennu'n glir ac yn berswadiol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol: cyfathrebwr llafar galluog sy'n gryno, ac sydd â'r hyder i ryngweithio â gwleidyddion, gweision sifil, rhanddeiliaid, cydweithwyr a grwpiau cymunedol.

**TG**

- Sgiliau TG da, gyda'r gallu i fod yn agored i feddalwedd newydd er mwyn cynyddu effeithiolrwydd.

## Profiad Manteisiol

- Pobl sydd â chefndir ffoadur neu geisiwr lloches ac sy'n arbenigwyr trwy brofiad.

## Sgiliau Manteisiol

**Ieithoedd**

- Y gallu i siarad Cymraeg, neu iaith gymunedol.

**Cyfryngau**

- Profiad o gyfweliadau ar y cyfryngau.





# Ymddygiad

**Gweledigaeth strategol**

Yn dangos dealltwriaeth glir o genhadaeth, gweledigaeth a nodau'r elusen, ac yn meddu ar y gallu i fynegi a chyfleu gweledigaeth strategol gymhellol i randdeiliaid.

**Datrys Problemau Arloesol**

Yn addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn mynd i'r afael â heriau'n rhagweithiol trwy feithrin diwylliant o arloesi, creadigedd a gwelliant parhaus.

**Arweinyddiaeth effeithiol**

Yn ysbrydoli ac yn cymell aelodau'r bwrdd, staff, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid trwy feithrin diwylliant o ymddiriedaeth, cydweithredu ac atebolrwydd.

**Adeiladu partneriaeth strategol**

Yn meithrin perthnasoedd strategol â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys rhoddwyr, cyllidwyr, asiantaethau'r llywodraeth, a phartneriaid cymunedol, i wella effaith a chynaliadwyedd yr elusen.

**Llywodraethu**

Sicrhau bod strwythurau ac arferion llywodraethu cadarn ar waith, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau clir, safonau moesegol, a mecanweithiau goruchwylio effeithiol.

Yn hyrwyddo amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant o fewn y bwrdd ac o fewn CFfC, ac yn cynnal safonau uchel o ymddygiad moesegol a chydymffurfiaeth gyfreithiol.

# Sut i Ymgeisio

I ymgeisio, anfonwch e-bost atom gyda'ch CV ynghyd â datganiad ategol (dim mwy na 1000 o eiriau) yn amlinellu eich cymhelliant ar gyfer y rôl, eich sgiliau a'ch profiad allweddol yn unol â manyleb y person.

E-bost: **recruitment@wrc.wales**

Cliciwch **yma** i gael rhagor o fanylion ar sut i wneud cais ar wefan Cyngor Ffoaduriaid Cymru.

Sicrhewch eich bod wedi cynnwys rhif ffôn, yn ogystal ag unrhyw ddyddiadau yn ystod wythnos Dydd Llun 2 Medi pan na fyddwch ar gael neu pan fydd gennych anhawster o bosib gyda'r amserlen recriwtio.

Pe nad ydych yn llwyddiannus yn y rôl hon, efallai y cewch eich ystyried ar gyfer rôl fel ymddiriedolwr cyffredinol y bwrdd. Os nad oes gennych ddiddordeb mewn cael eich ystyried ar gyfer hyn, rhowch wybod i ni pan fyddwch yn gwneud cais os gwelwch yn dda.

## Amserlen Benodi

**Dyddiad Cau:** Dydd Gwener 16 Awst 2024

**Cyfweliadau â'r Panel Enwebiadau:** Wythnos 9 Medi 2024

**Y panel enwebiadau'n cyflwyno argymhelliad i'r bwrdd a phenodiad:** Wythnos 16 Medi 2024

## Ymholiadau

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y rôl gydag aelod presennol o'r bwrdd neu gadeirydd dros dro yr ymddiriedolwyr, cysylltwch â **hawar.ameen@trustee.wrc.wales**.






WELSH REFUGEE COUNCIL
CYNGOR FFOADURIAID CYMRU